# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 23 Chwefror 2017.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Gwenfair E Davies, Dafydd E Evans, D Gwyn Jones, John Pughe Jones, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, William N Owen, Ann Williams, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Aled O Griffiths, Paul Hughes, Siôn Ifans, Gareth W Jones, Deryck Lewis, Geraint Wigley.

Estynodd y Cadeirydd croeso i pawb.

**17.08. Cofnodion cyfarfod 26 Ionawr 2016.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**17.09. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf. Mynegodd nifer o Cynghorwyr amheuon am cyflwr y gwaith ger y groesffordd uwchben Groft a cytunwyd ysgrifennu at Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Canolbarth Cymru.
16.73.10. Problemau gyda gordyfiant coed ar y ffordd fawr ger Cwmlline. Ymddiheurodd y Clerc ei fod dim eto wedi clywed yn ol gan swyddogion yr Asiantaeth Cefnffyrdd.
16.74.1. Problemau cael apwyntiad yn Canolfan Iechyd Glantwymyn. Eglurodd y Clerc fod yna cyfle i cwrdd gyda staff meddygol y Ganolfan ar Nos Wener, 24 Chwefror 2017. Cytunwyd os oedd yr aelodau sydd yn mynychu y cyfarfod ar Nos Wener yn cael atebion dderbyniol, ni fydd rhaid cael cyfarfod arbennig rhwng Mrs Shields a staff y Canolfan Iechyd gyda'r Cyngor Cymuned.
16.74.2. Pant ar draws y ffordd ger Tynant, Darowen. Eglurodd y Clerc fod swyddogion y Cyngor Sir wedi ymweld a'r safle ac wedi cytuno gwaith i lleuhau effarith y dibyn ar draws y ffordd. Pwysleisiodd Cyng John Pugh Jones fod trigolion Darowen ddim yn hapus gyda'r sefyllfa ac mae'n rhaid i'r gwaith ailgreu gwyneb llyfn i'r ffordd. Cytunwyd ysgrifennu at swyddogion y Cyngor Sir unwaith eto.
16.74.3. Problemau gyda golau stryd ddim yn gweithio yn Nhalywern. Cadarnhaodd y Clerc fod Cyng Geraint Wigley wedi pasio rhif y golau iddo ac ei fod wedi ysgrifennu i swyddogion y Cyngor Sir am y sefyllfa.
16.74.5. Problemau gyda gorsaf pwmpio Cwmlline. Eglurodd y Clerc ei fod wedi cwrdd ar y safle ar 10 Chwefror 2017 gyda swyddogion Dwr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Fu Cyng Deryck Lewis a Chyng Paul Hughes hefyd yno ynghyd a Mr Steenie Halliday sydd yn byw ym Maes Afon. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r cyfarfod ac eglurodd fod yn bwysig cysylltu gyda Dwr Cymru ar pob achlysur mae'r dwr yn gorlifo y Gorsaf Pwmpio i phwysleisio'r problemau gyda'r safle yma.

**17.10. Cynllunio.**
10.1 Llythr gan WHP Wilkinson Helsby ynglyn a polyn telecoms ger Maes Carafanau Maesperthi. Er bod y cynllun yma wedi ei lleoli o fewn ardal Cyngor Cymuned Cadfarch eglurodd y Clerc fod manteision i trigolion ardal Llanwrin. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu llythr o chefnogaeth i'r cynllyn.

**17.11. Eitemau i'w talu.**
11.1 Taliad i Un Llais Cymru am lle ar cwrs. Cytunwyd taliad o £35-00.
11.2 Taliad i Mr Glenn Ward am torri gwair yn y mynwentydd. Cytunwyd taliad o £1,260-00.
11.3 Taliad i Neuadd Glantwymyn fel cyfraniad tuag at costau. Cytunwyd taliad o £1,200-00.
11.4 Taliad I Gloversure am cynnal y gwefan. Cytunwyd taliad o £105-60.
11.5 Cyflog y Clerc am tri Mis, Hydref, Tachwedd a Rhagfyr. Cytunwyd taliad o £750-00.

**17.12. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
12.1. Cyngor Sir Powys. Cadarnhaodd Cyng Gwilym P Fychan fod y Cyngor Sir wedi gosod codiad yn y praesept o 3.9%.

**17.13. Gohebiaeth.**
13.1 E-bost gan Elizabeth Goodwin, Bwrdd Addysg Iechyd Powys, ynglyn a weledigaeth draft ar gyfer Iechyd a Gofal ym Mhowys hyd 2027 a thu hwnt.
13.2 E-bost a llythr gan Mark Drakeford AC ynglyn ac ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol – Cadernid ac Adnewyddiad.
13.3 E-bost gan Paul Griffiths, Cyngor Sir Powys, ynglyn ag Assesiad Lles Powys (Drafft) 2017.
13.4 E-bost gan David Allday Cyngor Sir Powys, ynglyn a cyfle i chyfranu at map rhwydwaeth "Active Travel Act (Wales) ym Mhowys.
13.5 E-bost gan Liam Fletcher, Cyngor Sir Powys, ynglyn a cais I cau'r ffordd C2082 heibio'r hen ysgol yng Nghemaes am cyfnod ym Mis Mehefin.
13.6 E-bost gan Wendi Patience, Un Llais Cymru, ynglyn a chyrsiau hyfforddiant lleol yn ystod Mis Mawrth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd mi fydd Cyng. Hywel Davies a Chyng. Michael Taylor yn mynychu y cwrs "Code of Conduct" ym Mhlas Machynlleth ar 16 Mawrth 2017.
13:7 E-bost gan Russell George AM gyda newyddion Mis Chwefror.

**17.14. Unrhyw fater arall.**
14.1 Problemau gyda'r ffosydd rhwng Glandulas ac Hendresiefion. Eglurodd Cyng Huw Williams fod yna problemau gyda'r ffosydd wedi eu rhwystro. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.
14.2 Problemau gyda baw ar y ffyrdd yn yr ardal. Eglurodd Cyng Huw Williams fod angen brwsio'r ffyrdd yn ardal Ceinws a Llanwrin. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.
14.3 Problemau codi sbwriel. Eglurodd Cyng Gareth Owen fod y sbwriel yn ardal Llanwrin ddim wedi cael ei codi ar 15 Chwefror 2017. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.
14.4 Sefyllfa gyda Cartrefle, Darowen. Gofynodd Cyng John Pughe Jones am crynodeb o'r sefyllfa gyda Cartrefle, Darowen. Eglurodd y Clerc ei fod ddim wedi cael cyfle i chysylltu gyda perchnogion newydd Cartrefle hyd yn hyn.
14.5 Pridd yn cael ei gosod ger ochr y ffordd i Cwmeidrol, Cwmlline. Eglurodd y Clerc fod gan Cyng Deryck Lewis amheuon am llwythi o phridd yn cael ei gosod ger ochr y ffordd i Cwmeidrol. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cadw golwg ar y sefyllfa.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 30 Mawrth 2017.**